# DEWCH I GONWY
# Y GAEAF HWN

Swyn Eryri Sain y Lli

2022/ 2023





## Y TU MEWN:

Antur Dan Do ac yn yr Awyr Agored • **Treftadaeth | Diwylliant | Gerddi**
Ffefrynnau i'r Teulu • **Blas ar Gymru** • Ar lwyfan a sgrin
**Digwyddiadau'r Gaeaf** • Map o Sir Conwy a Chanolfannau Croeso

dewchigonwy.org.uk #dewchigonwy

# Darganfyddwch antur na ellir ei fethu, golygfeydd hudolus a phrofiadau unigryw, ar garreg eich drws!

**Y peth anoddaf i'w wneud yn Llandudno a Sir Conwy ydi gwneud amser i bopeth ar wyliau cartref dros y gaeaf!**

Ymgollwch mewn antur, bwyd a diod, hanes a chysurusrwydd cartrefol mewn un daith. Ewch ati i grwydro Parc Gwledig y Gogarth, llynnoedd llonydd y mynydd a llwybrau deiliog Coedwig Gwydir, neu ewch am dro iachusol ar hyd pier hiraf Cymru. O ddyffryn Conwy i Hiraethog, tydi darganfod pentrefi hudolus a phrofiadau na ellir eu methu erioed wedi bod mor gyffrous.

Mae'r hydref a'r gaeaf yng Nghonwy yn gweld y sir yn cael ei thrawsnewid. Mae ein coetiroedd yn ffrwydrad o llwytgoch, melyn ac aur ac yn cynnwys golygfeydd anhygoel.

Ym mis Ionawr, gwisgwch yn gynnes a gweld y tonnau wrth fynd am dro ar y traeth ar hyd Llwybr Arfordir Cymru. Ewch allan ac archwilio golygfeydd y gaeaf neu hyd yn oed rhoi cynnig ar weithgaredd newydd.

Mae diwedd Ionawr neu Chwefror yn berffaith ar gyfer gwyliau rhamantaidd. Trefnwch wyliau bach Santes Dwynwen (santes cariadon Cymru) neu San Ffolant gyda rhywun arbennig. Mwynhewch deithiau cerdded hamddenol, anturiaethau a golygfeydd epig fydd yn darparu atgofion hudol fydd yn para am byth.

## BETH SYDD Y TU MEWN


| | |
|---|---|
| 3-5 | Antur Dan Do ac yn yr Awyr Agored |
| 6-8 | Treftadaeth \| Diwylliant \| Gerddi |
| 9 | Ffefrynnau i'r Teulu |
| 10 | Blas ar Gymru - Iechyd da! |
| 11 | Ar lwyfan a sgrin |
| 12-13 | Digwyddiadau'r Gaeaf |
| 14 | Map o Sir Conwy a Chanolfannau Croeso |






**Llun:** Golygfa o arfordir Conwy o'r Gogarth

LLE LLAWN ANTUR

## Arfordir neu gefn gwlad? Y gwyliau perffaith i chi

Os ydych chi ffansi ychydig o ddyddiau ar yr arfordir, gallwch ymweld ag un o'n gwestai crand, ymlacio mewn tŷ llety moethus neu wneud fel y mynnwch mewn rhandy hunanarlwyo. Neu beth am ymweld â sba cefn gwlad, aros mewn gwesty gwledig neu ymlacio mewn bwthyn cuddiedig. I archebu eich gwyliau, ymwelwch â **dewchigonwy.org.uk**

# ANTUR DAN DO AC YN YR AWYR AGORED

## Parc Antur Eryri, Dolgarrog

**01492 353123 Cyf Map:** D3

Yn gartref i lagŵn syrffio mewndirol cyntaf y byd, mae gan Barc Antur Eryri hefyd gyfleuster antur newydd dan do. Mae Adrenaline Indoors yn cynnwys dringo dan do, ogofa, rhaffau uchel, gwifrau sip, ninja assault a rhagor o weithgareddau i'r teulu. Gall yr anturwyr deithio ar hyd llinell sip tandem o'r to gan hedfan dros y lagŵn syrffio, ac mae dringfeydd awyr agored a thrac ponciog hefyd.

## Canolfan Chwaraeon Eira Llandudno

**01492 874707 Cyf Map:** A3

Beth am fentro i Ganolfan Chwaraeon Eira Llandudno. Does dim amser gwell i weithio ar eich sgiliau chwaraeon gaeaf nag yn ystod y misoedd oeraf. Os yw'n well gennych fod ar eich eistedd, rhowch gynnig ar y Toboggan Cresta. Mae'r Toboggan Cresta yn 575m o hyd, ac yn brofiad hynod gyffrous.

## GYG Karting, Cerrigydrudion

**01490 420770 Cyf Map:** I8

Bodlonwch eich angen am gyflymder yn GYG Karting yng Ngherrigydrudion. Dyma gylchffordd rasio ceir gwyllt fwyaf y DU, sy'n cynnig gwefr uchel-octan i yrwyr o bob oed.

## Mynydd Sleddog Adventures, ger Cerrigydrudion

**07931 511217 Cyf Map:** I8

Dyma'r unig atyniad a'r cyntaf o'i gath yng Nghymru gyda sleidiau a chŵn, ac mae'n cynnig cyfleoedd gwych i unigolion, teuluoedd a grwpiau i fwynhau eu hantur cŵn llusgo ar hyd llwybrau troellog a rhewllyd yng nghanol y goedwig.

## Zip World Fforest, Betws-y-Coed

**01248 601444 Cyf Map:** G4

Ewch am y coed gyda'ch ffrindiau a'ch teulu yn Zip World Fforest i fynd i'r afael â rhaffau, rhwydi a siglenni sy'n hongian o'r nenfwd o goed. Mae yno hefyd reid tobogan y Fforest Coaster a'r Plummet 2 newydd sy'n gwymp 100 troedfedd/30 metr drwy drapddor, sef y profiad agosaf at neidio rhydd a gewch chi heb fynd mewn awyren.

## Antur Danddaearol Go Below, Ger Betws-y-Coed

**01690 710108 Cyf Map:** G4

Antur Danddaearol Go Below ger Betws-y-Coed yw'r profiad tanddaearol dramatig eithaf. Ymysg cyn fwyngloddiau yng nghrombil mynyddoedd Eryri, mae yna fyd o lynnoedd glas dwfn, gwifrau gwib, pontydd, ysgolion ac abseiliau. Mae'n gwrs rhwystrau heb ei ail.

**COFIWCH!**
Gall amseroedd agor a chyfleusterau newid heb rybudd felly cysylltwch â'r atyniadau unigol cyn cychwyn.



Llun: Dringo yng nghanolfan dan do Plas y Brenin

## Canolfan Ddringo'r Boathouse, Llandudno

**01492 353535 Cyf Map:** A3

Mae hen Orsaf Bad Achub Llandudno yn gartref i Ganolfan Ddringo'r Boathouse. Bydd yn apelio at bawb, yn ddechreuwyr ac yn arbenigwyr fel ei gilydd. Mae'n cynnwys tua 200 metr sgwâr o arwynebau dringo gyda wal clogfeinio sydd yn 4.5 metr o uchder. Mae'r tŵr dringo yn 8 metr o uchder gyda chyfres o ddringfeydd a rhaffau, ac mae llawer o lwybrau yn ddigon i herio'r dringwyr mwyaf profiadol.

Os ydych chi'n bwriadu mynd ar eich antur awyr agored eich hun, ewch i **www.adventuresmart.uk** bydd y cyngor sydd yno am y tywydd, offer a sgiliau yn help mawr i chi gadw'n ddiogel.

## Llwybr Arfordir Cymru

Bydd Llwybr chwedlonol Arfordir Cymru'n dathlu 10 mlynedd eleni, ac nid oes yna adeg wael i grwydro ein rhan ni o'r llwybr arbennig hwn. Mae'n ymestyn oddeutu 35 milltir rhwng Bae Cinmel a Llanfairfechan, felly bydd gennych ddigon o lwybrau glan y môr i ddewis ohonynt.

## Beicio

Ymysg tirweddau agored a thywyll Mynydd Hiraethog, fe ddewch o hyd i lwybrau addas i'r teulu oll o amgylch cronfeydd dŵr Alwen a Llyn Brenig. I feicwyr ffordd, mae yna elltydd digon i hollti ysgyfaint yn ogystal â llwybrau teuluol hamddenol ar Lwybr Beicio Conwy, sy'n 30 milltir o daith arfordirol bron yn gwbl ddi-draffig.

## Beicio Mynydd

Bydd beicwyr profiadol yn anelu'n syth am brofiadau bythgofiadwy fel y traciau coedwig gwyllt yn ardal Penmachno a Betws-y-Coed, gan gynnwys llwybr mawreddog Gwydir Mawr, sy'n 16 milltir.

## Plas y Brenin, Capel Curig

**01690 720214 Cyf Map:** F2

Nawr yw'r amser i weld pegynau Eryri dan fantell wen. Dysgwch sut i fynd i'r afael â'r mynyddoedd hyn dan hyfforddiant arbenigol ar gyrsiau awyr agored yng Nghanolfan Fynydda Genedlaethol Plas y Brenin yng Nghapel Curig. Maen nhw'n cynnwys popeth o ddringo i ganŵio, beicio mynydd i heicio.

LLE LLAWN ANTUR

# TREFTADAETH DIWYLLIANT GERDDI



## Castell Conwy

**01492 592358 Cyf Map:** B3

Os rhywbeth, mae Castell Conwy'n edrych hyd yn oed yn fwy dramatig yn erbyn cefnlen o awyr tywyll, du. Cerddwch ar y rhagfuriau i gael naws ar ei bŵer, sy'n ddigyfnewid 800 mlynedd ar ôl iddo gael ei adeiladu fel rhan o ymgyrch Brenin Edward I yn erbyn Cymru. I gael y golygfeydd gorau o'r castell a'r foryd, gallwch gerdded ar hyd muriau canoloesol Conwy. Gan ymestyn yn ddi-dor bron o amgylch craidd y dref, dyma rai o'r waliau hiraf ac mewn cyflwr da gorau yn Ewrop. Does dim syndod fod y muriau a'r castell wedi'u dynodi'n Safle Treftadaeth y Byd UNESCO.

## Castell Dolwyddelan

**01492 592358 Cyf Map:** H2

Efallai ei fod yn llai na Chonwy, ond mae Castell Dolwyddelan yn dal yn seren. Wedi'i adeiladu gan Llywelyn Fawr (Tywysog Gwynedd o'r 13eg ganrif ac arweinydd gwirioneddol y mwyafrif o Gymru), mae ei leoliad ar grib greigiog ymhlith copaon Eryri yn ddramatig iawn. Gellir ymweld â'r castell o'r tu allan drwy gydol y flwyddyn.

## Castell Gwrych, Abergele

**01745 826023 Cyf Map:** B7

Tŷ gwledig rhestredig Gradd I ac un o'r ceisiadau cyntaf i atgynhyrchu saernïaeth ganoloesol yn Ewrop. Mae Ymddiriedolaeth wedi dechrau ar raglen i adfer y castell a'r parcdir yn ôl i'w hen ogoniant. Dyma oedd cartref 'I'm a Celebrity... Get Me Out of Here!' am ddwy flynedd yn olynol. Gallwch archebu tocynnau ar-lein drwy ymweld â **gwrychcastle.co.uk**

## Amgueddfa Penmaenmawr

**01492 621462 Cyf Map:** B2

Mae'r amgueddfa yn mynd â chi ar daith drwy hanes y dirwedd, y dref a'i phobl, gan ddefnyddio straeon a gwrthrychau o'r gorffennol hynafol hyd at y presennol. Bydd plant yn mwynhau crwydro'r amgueddfa gan ddefnyddio'r llwybr Helwyr Hanes. Oriau agor dros y gaeaf: dydd Mercher i ddydd Sul tan 30 Tachwedd 2022 ac o fis Mawrth 2023. **penmaenmawrmuseum.co.uk**



## Pier Llandudno

**01492 876258 Cyf Map:** A3

Beth sydd ddim i'w hoffi am gerdded ar y pier? Yn Llandudno, mae gennym yr un hiraf yng Nghymru. Felly, lapiwch yn gynnes a mentro i'r gwynt gan gerdded ei hyd ac yn ôl.

## Canolfan Ddiwylliant Conwy

**01492 576139 Cyf Map:** B3

Mae Canolfan Ddiwylliant Conwy yn dod â threftadaeth Conwy i fywyd yr 21ain Ganrif. Wedi'i leoli mewn adeilad modern trawiadol gyda golygfeydd dros furiau a chastell y dref, mae yn gartref i lyfrgell ac Archifdy Conwy, yn ogystal â bod yn ganolfan gelfyddydau a threftadaeth sydd yn cynnwys arddangosiadau ac arddangosfeydd o gasgliadau hanesyddol y sir.

## Amgueddfa ac Oriel Llandudno

**01492 701490 Cyf Map:** A3

Mae Amgueddfa ac Oriel Llandudno yn gist drysor o bopeth lleol – o'r cyfnod cyn hanes ac oes y Rhufeiniaid i dwf Llandudno fel cyrchfan wyliau glan môr. Mae uchafbwyntiau'r ailddatblygiad yn cynnwys orielau newydd, arddangosfeydd a dehongliadau a hwyl i'r teulu. Oriau agor dros y gaeaf: dydd Mawrth - dydd Sadwrn tan 17 Rhagfyr 2022 ac o 1 Chwefror 2023. **llandudnomuseum.co.uk**


LLE I'W DDARGANFOD

## Mostyn, Llandudno

**01492 879201 Cyf Map:** A3
Un o orielau celf cyfoes gorau'r DU. Y tu ôl i'r ffasâd Edwardaidd mae cyfres o ofodau mewnol modern a rhaglen amrywiol o arddangosfeydd. Mae'r siop hyfryd yn gwerthu gemwaith hardd, serameg, printiau, gwydrau, llyfrau a chardiau wedi'u gwneud yng Nghymru a thu hwnt. Gallech fwynhau coffi wedi ei rostio'n lleol, cacen a chynnyrch rhanbarthol rhagorol yn y Caffi. Oriau agor: dydd Mawrth - dydd Sul, mynediad am ddim.

## Yr Academi Frenhinol Gymreig, Conwy

**01492 593413 Cyf Map:** B3
Mae'r Academi Frenhinol Gymreig mawr ei bri yng Nghonwy yn canolbwyntio ar ragoriaeth gelfyddydol yng Nghymru, gyda chymysgedd o waith hanesyddol a chyfoes. Ar agor dydd Mawrth i ddydd Sadwrn.

## Galeri Ffin y Parc, Llanrwst

**01492 642070 Cyf Map:** G4
Mae yna fwy o gelfyddyd anhygoel i'w gweld yn Ffin y Parc yn Llanrwst, sef plasty crand sy'n arddangos rhai o'r artistiaid gorau sy'n gweithio yng Nghymru ochr yn ochr â'r goreuon ymhlith celf gyfoes yr 20ain Ganrif. Ar agor dydd Mercher i ddydd Sul.

## Gardd Bodnant, Eglwysbach

**01492 650460 Cyf Map:** C4
Pryd bynnag yr ymwelwch, mae Gardd Bodnant wastad yn brydferth. Gardd Gaeaf Bodnant, a grëwyd yn y 10 mlynedd ddiwethaf, yw trysor y tymor. Mae'r gyn ardd gerrig wedi datblygu'n arddangosfa liwgar gyfoethog o ddail a blodau sy'n gwneud y mwyaf o haul y gaeaf – ac yma yw man cychwyn taith trwy 80 erw o hud y gaeaf.



**Llun:** Gardd Bodnant – Ymddiriedolaeth Genedlaethol/ Paul Harris

LLE I'W DDARGANFOD



# FFEFRYNNAU I'R TEULU



**Llun:** Teigr yn Sŵ Mynydd Cymru

## Sŵ Mynydd Cymru, Bae Colwyn

**01492 532938 Cyf Map:** D4
Mae mwy na chynnwys Arch Noa o greaduriaid yn Sw Mynydd Gymreig Bae Colwyn – popeth o forloi i lewpardiaid eira. Mae hefyd yn gwneud ei rhan yn y frwydr i achub rhywogaethau sydd mewn perygl o bob cwr o'r byd.

## Amgueddfa Reilffordd Dyffryn Conwy, Betws-y-Coed

**01690 710568 Cyf Map:** G4
Mae pobl sy'n frwd am drenau wrth eu boddau ag Amgueddfa Reilffordd Dyffryn Conwy, sydd yn union wrth ymyl y brif orsaf. Ewch am daith wyth munud o hyd ar drên stêm bychan, ewch i amgueddfa llawn arteffactau hynod ddiddorol a phorwch drwy'r casgliad enfawr o fodelau trên yn y siop.

## Gwarchodfa Natur RSPB Conwy, Aber Afon Conwy

**01492 584091 Cyf Map:** B4
Mae Gwarchodfa RSPB Conwy, safle gwlypdir ar ymyl y foryd, yn werddon dawel o lonyddwch, dafliad carreg oddi wrth yr A55. Yn y gaeaf cadwch lygad am haid o adar yn cynnull i fwyta, neu'n clwydo gyda'i gilydd gyda'r cyfnos i gadw'n gynnes.



## Llyn Brenig, Cerrigydrudion

**01490 420463 Cyf Map:** G8
Gallwch grwydro o amgylch 2,500 acer o goedwigoedd, rhostir a llynnoedd wedi'u hamgylchynu gan olygfeydd bendigedig o'r ucheldiroedd. Gyda chanolfan i ymwelwyr, caffi, siop anrhegion, arddangosfa gweilch y pysgod, parc chwarae antur, cyfleusterau llogi beiciau, beicio mynydd, llwybrau cerdded, hwylio a physgota o'r radd flaenaf i'w darganfod. A chofiwch am y pysgota aml-ddull o'r lan sydd ar gael drwy'r flwyddyn yng Nghronfa Alwen gerllaw. Ewch i'r wefan i weld y prisiau ac i gadw lle ar-lein. **llyn-brenig.co.uk**

LLE AR GYFER CYSYLLTU

# BLAS O GYMRU



**Llun:** Bar Blasu, Distyllfa Penderyn

## Distyllfa Penderyn, Lloyd Street, Llandudno

**01492 701530 Cyf Map:** A3

Penderyn yw cartref Wisgi Cymreig ac mae wedi ail-gyflwyno distyllu i Gymru yn dilyn dros ganrif. Maent yn cynhyrchu wisgi Cymreig a gwirodydd poblogaidd ac yn allforio i dros 50 o wledydd ar draws y byd. Beth am archebu lle ar un o' deithiau'r distyllfa neu gwrs meistr wisgi yn Llandudno, er mwyn blasu samplau o wisgi Cymreig a dysgu beth sy'n gwneud Distyllfa Penderyn mor unigryw. **penderyn.wales/llandudno**

## Gwinllan Conwy, Llangwstenin

**01492 545596 Cyf Map:** B4

Mae Gwinllan Conwy, a gafodd ei sefydlu yn 2012 gan Colin a Charlotte Bennett, yn cynhyrchu gwinoedd llonydd a phefriog wedi eu creu o rawnwin sydd wedi eu dewis yn benodol ar gyfer pridd a hinsawdd Gogledd Cymru. Datgelir cyfrinachau am lwyddiant y teulu Bennett ar deithiau tywys o amgylch y winllan a chewch gyfle i flasu'r gwinoedd. Fel arfer cynhelir y teithiau ar ddydd Iau i ddydd Sadwrn tan ddiwedd mis Tach ac o ganol mis Ion ymlaen. **gwinllanconwy.co.uk**



# AR LWYFAN A SGRIN



## Venue Cymru

**01492 872000 Cyf Map:** A3

Mae yna raglen lawn dop yn Venue Cymru, canolbwynt adloniant glan y môr Llandudno. Pop, comedi, opera, drama, dawns a sioeau cerdd poblogaidd yn syth o'r West End...mae'r cyfan yno. Dewch i hwyl yr ŵyl gyda chynhyrchiad panto Nadoligaidd Beauty and the Beast. **venuecymru.co.uk**

## Theatr Colwyn

**01492 556677 Cyf Map:** B5

Gallwch hefyd wylio ffilm yn Theatr Colwyn ym Mae Colwyn. Dyma'r theatr a sinema hynaf sy'n gweithio yng Nghymru – ac mae'n dal i ffynnu, wedi'i moderneiddio bellach i gynnig profiad adloniadol yr 21ain Ganrif. Mae'r rhaglen o adloniant byw yn cynnwys cerddoriaeth, dramâu llwyfan, dawns a nosweithiau comedi stand-yp. **theatrcolwyn.co.uk**

## Cineworld, Cyffordd Llandudno

**Cyf Map:** B4

I'r rheiny ohonoch sy'n hoff o ffilmiau, mae sinema Cineworld yng Nghyffordd Llandudno, sy'n berffaith ar gyfer noson allan neu ffilm i'r teulu. **cineworld.co.uk**

# BETH SYDD 'MLAEN

Mae ein rhaglen lawn o wyliau a digwyddiadau'n rhedeg drwy gydol y flwyddyn. Dyma flas i chi o'r hyn fydd yn digwydd yn ystod y gaeaf. I gael rhagor o fanylion am ddigwyddiadau yn Sir Conwy ewch i:

**dewchigonwy.org.uk**



## HYDREF

8 HYD I 5 MAWRTH 2023
**Cerith Wyn Evans**
Mostyn. Ar agor dydd Mawrth i ddydd Sul.
**mostyn.org**

15 HYD
**Marchnad Grefftwyr Bae Colwyn**
**theartisanmarket company.co.uk**

22 HYD I 19 TACH
**David Brightmore RCA Audrey Hind RCA Patricia McParlin RCA**
Academi Frenhinol Gymreig, Conwy. Ar agor dydd Mawrth i ddydd Sadwrn.
**rcaconwy.org**

27 HYD (Os bydd tywydd gwael 28 Hydref)
**Sioe Dân Gwyllt Llandudno**
**llandudno.gov.uk**

29 HYD
**Rali Cambria Dewch i Gonwy**
**cambrianrally.co.uk**

29 HYD
**Ras 10k Calan Gaeaf Porth Eirias a Ras 1k i blant, Bae Colwyn**
**bespokefitnessand events.co.uk**

29 HYD A 31 HYD
**Helfa Ysbrydion**
Castell Gwrych, Abergele
**gwrychcastle.co.uk**

## TACHWEDD

5 TACH
**Helfa Ysbrydion**
Castell Gwrych, Aberge-le **gwrychcastle.co.uk**

17-20 TACH
**Strafagansa Nadolig Llandudno**
**victorian-extravaganza.com /christmas-extravaganza**

19 TACH
**Marchnad Grefftwyr Bae Colwyn**
**theartisanmarket company.co.uk**

20 TACH
**Hanner Marathon Conwy**
**runwales.com**

26 TACH
**Helfa Ysbrydion**
Castell Gwrych, Abergele
**gwrychcastle.co.uk**

26 TACH
**Her Llwybr Betws-y-Coed**
**trailbetws.com**

26 TACH I 23 RHAG
**Y Sioe Aeaf**
Academi Frenhinol Gymreig, Conwy. Ar agor dydd Mawrth i ddydd Sadwrn.
**rcaconwy.org**

26 TACH I 4 RHAG
**Seiniau'r Gaeaf**
Cyfres o ddigwyddiadau sy'n dathlu cerddoriaeth fyw, geiriau llafar a seiniau bendigedig ym mhob rhan o Sir Conwy.
**diwylliantconwy.com**




29 TACH I 3 RHAG
**The Osmonds Musical**
Venue Cymru, Llandudno
**venuecymru.co.uk**

## RHAGFYR

NOS WENER 2 A SAD 3 RHAG
**Penwythnos Nadolig Llanrwst**
**cyngorllanrwst.cymru**

3 RHAG
**Ras Siôn Corn Llandudno**
**bespokefitnessand events.co.uk**

3 RHAG
**Gorymdaith Nadolig Llandudno**
**llandudno.gov.uk**




10-31 RHAG
**Pantomeim Beauty and the Beast**
Venue Cymru, Llandudno
**venuecymru.co.uk**

10 RHAG
**Marchnad Crefftwyr Nadolig Bae Colwyn**
**theartisanmarket company.co.uk**



10 RHAG
**Nadolig Canoloesol Conwy**
**conwytownevents.co.uk**

24 RHAG I 7 IONAWR 2023
**Robin Hood panto**
Theatr Colwyn
**theatrcolwyn.co.uk**

27 RHAG
**Fair Trenau a Theganau Llandudno**
Venue Cymru, Llandudno
**llantransfest.co.uk**

31 RHAG
**Helfa Ysbrydion**
Castell Gwrych, Abergele
**gwrychcastle.co.uk**

## IONAWR

7 IONAWR I 25 CHWEFROR
**Arddangosfa Agored Blynyddol**
yn Yr Academi Frenhinol Gymreig, Conwy. Ar agor dydd Mawrth i ddydd Sadwrn.
**rcaconwy.org**



## CHWEFROR

3 CHWE
**Pencampwriaethau'r Chwe Gwlad Dan 20 - Cymru v Iwerddon,**
Stadiwm CSM, Bae Colwyn **venuecymru.co.uk**




13-18 CHWE
**Sister Act The Musical**
Venue Cymru, Llandudno
**venuecymru.co.uk**




13-19 CHWE
**Pencampwriaeth Snwcer Agored BetVictor Cymru 2023**
**venuecymru.co.uk**

24 CHWE
**Pencampwriaethau'r Chwe Gwlad Dan 20 - Cymru v Lloegr**
Stadiwm CSM, Bae Colwyn.
**venuecymru.co.uk**




28 CHWE TO 4 MAWRTH
**The Cher Show A New Musical**
Venue Cymru, Llandudno
**venuecymru.co.uk**

## MAWRTH

4-5 MAW
**Gŵyl Gorau Gogledd Cymru**
Venue Cymru, Llandudno
**venuecymru.co.uk**



**COFIWCH:** Cafodd y rhestr hon ei llunio yn Awst 2022, felly mae'n bosibl y bydd y manylion wedi newid. Gwiriwch y dyddiadau os ydych yn bwriadu mynychu digwyddiad neu archebu llety.

BETH SYDD 'MLAEN




# Cyrraedd yma:

**TRÊN**
**I'r cyrchfannau arfordirol: nationalrail.co.uk**

**I'r ardaloedd mewndirol ar Reilffordd hyfryd DYFFRYN CONWY: conwyvalleyrailway.co.uk**

**BWS**
**nationalexpress.com**

**TEITHIO O AMGYLCH: traveline.cymru**

## ALLWEDD/KEY

- **Rheilffordd gyda gorsaf** – Railway with station
- **Ffin Parc Cenedlaethol Eryri** – Snowdonia National Park Boundary
- **Parc Coedwig Gwydir** – **Gwydir** Forest Park
- **Canolfan Groeso** – Tourist Information Centre
- **Pwynt Gwybodaeth i Ymwelwyr** – Tourist Information Point
- **Copa Mynydd** – Mountain Peak

# Getting here

**TRAIN**
**To the coastal destinations: nationalrail.co.uk**

**Inland on the scenic Conwy VALLEY LINE: conwyvalleyrailway.co.uk**

**COACH**
**nationalexpress.com**

**GETTING AROUND**
**traveline.cymru**




## Teithiau Marine Drive Llandudno

**01492 879133 Cyf Map:** A3

Ewch ar hen fws moethus am daith un awr ar hyd Marine Drive a mwynhau golygfeydd syfrdanol o Ynys Môn, Eryri ac allan dros Fôr Iwerddon. Bydd y daith yn gadael bob dydd o fynedfa'r pier am 11am, 1pm a 3pm. **alpine-travel.co.uk**

# CONWY & LLANDUDNO

**Canolfannau Croeso**

venue cymru

**CANOLFAN GROESO LLANDUDNO**
Uned 26,
Canolfan Siopa Fictoria,
Stryd Mostyn, Llandudno,
LL30 2NG
**llandudnotic@conwy.gov.uk**
01492 577577

**CANOLFAN GROESO CONWY**
Muriau Buildings,
Stryd Rose Hill,
Conwy LL32 8LD
**conwytic@conwy.gov.uk**
01492 577566




**Siop Ar-lein Dewch i Gonwy**
**Porwch ein hamrywiaeth ar-lein o anrhegion Cymreig, bwyd a diod a llawer mwy er mwyn eu cael wedi'u danfon i'ch drws!**
**www.siopconwy.cymru**


**Cyhoeddwyd gan:**
**Busnes a Twristiaeth, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, tourism@conwy.gov.uk**

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL


Er bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi gwneud pob ymdrech i sicrhau cywirdeb y cyhoeddiad hwn, ni all y Cyngor dderbyn cyfrifoldeb am unrhyw wallau, camgymeriadau neu hepgoriadau nac am unrhyw fater sydd mewn unrhyw ffordd yn gysylltiedig â neu'n codi o gyhoeddi'r wybodaeth yn y llyfryn hwn.


**Dyluniwyd gan:** View Creative viewcreative.co.uk
**Ffotograffiaeth:** Sŵ Mynydd Cymru, Follow Films, Cyngor Tref Llandudno/Tony Mottram, Hawlfraint Ymddiriedolaeth Genedlaethol/Paul Harris, Penderyn, Hawlfraint y Goron (2022) Croeso Cymru Opera Cenedlaethol Cymru.

**Argraffwyd gan:**
design2print d2pltd.co.uk

FSC www.fsc.org MIX Paper from responsible sources FSC® C181648